

Ymateb i anawsterau

“Oherwydd y mae drws llydan wedi ei agor imi, un addawol, er bod llawer o wrthwynebwyr.” (adn. 9)

Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 16:5–18 ac yna myfyrio

Ddoe, roeddwn yn sôn am farathon Boston 1980, marathon a enillwyd gan wraig oedd wedi ymuno â'r ras yn y filltir olaf, ac, o ganlyniad, fe gollodd y fedal. Beth am gymharu y rhedwraig honno gyda rhai oedd wedi cychwyn y farathon a gorffen yn olaf. Mae'n ddiddorol i weld fod y rhain yn aml yn cael cymaint o gymeradwyaeth os nad mwy na'r rhai sydd ar y blaen. Pam tybed? Oherwydd bod pawb yn gwerthfawrogi dyfalbarhad.

Yn ôl un aralleiriad o'r testun heddiw, gellir darllen yr adnod fel hyn: “Y mae gennyf lu o gyfleon yma ac mae yna lu o bobl sydd am ddod ar fy nhraws.” Mae'n debyg y byddai llawer yn dweud: “Dwi am roi i fyny. Y mae gennyf lu o gyfleon yma ond mae yna ormod o bethau yn fy erbyn.” Yn ôl un esboniwr: “Yr ydym yn cael ein galw i ddyfalbarhau yn y gwirionedd a dderbyniwyd gennym, i ddal gafael ynddo fel angor mewn storm ac i sefyll yn y gwirionedd.” Mae gormod o lawer o Gristnogion yn cychwyn yn dda ond yn methu â dyfalbarhau. Does yna ddim ymdrech i ddal gafael yn angor y gwirionedd a'i ddal ynghanol pob math o stormydd, ac, o ganlyniad, mae eu bywydau yn llongddrylliad o gychwyn da. Rhaid inni wynebu'r gwirionedd, er na chydabyddir hyn mewn cylchoedd Cristnogol yn aml, fod nifer o bobl yn ymadael â'r ffydd ac yn mynd yn ôl i'w hen ffordd. Blynnyddoedd yn ôl mewn cyfrol gynnar iawn o *Pob Dydd Gyda Iesu* rhoddais nifer o resymau dros y cilio'n ôl yma. Un o'r prif resymau oedd fod credinwyr yn aml yn gwrthod y gallu sydd gan Dduw ar gyfer ei bobl i'w nerthu i ddyfalbarhau. Maent yn rhoi i fyny mewn anawsterau.

Nid yw yn rhwydd i fod yn Gristion ac, er bod yna lawenydd, mae yna anawsterau. Mae'r ffordd y byddwn yn ymateb i'r anawsterau hyn yn datguddio gradd ein dyfalbarhad. Yn ôl y pregethwr enwog, C. H. Spurgeon: “Trwy ddyfalbarhad, wedi'r cyfan, y bu i'r falwen gyrraedd yr arch.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 1:3–11; 4:1–18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam na fu i Paul dorri ei galon?
2. Sut y bu iddo ddyfalbarhau?

Gweddi

O Dduw fy Nhad, yr wyf wedi cymryd dy iau arnaf a bellach rwyf wedi fy rhwymo i ti. Cynorthwya fi trwy dy nerth i beidio â methu yn fy ngherddeddiad, i beidio â rhoi i fyny. Yn enw Iesu. Amen.